# Adroddiad Panel Asesu Perfformiad ac Ymateb Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r Cyngor yn croesawu Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel ac yn ddiolchgar i'r Panel am eu gwaith wrth ddarparu persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriodd y panel a yw'r Cyngor yn ymarfer ei swyddogaethau'n effeithiol; yn defnyddio'u hadnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol; a bod ei lywodraethu'n effeithiol ar gyfer sicrhau hyn.

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn yr adroddiad, ac yn nodi'r casgliadau cyffredinol cadarnhaol sy'n:

- O ystyried y galwadau uchel bresennol ar wasanaethau a'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda.
- Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth glir ac effeithiol gyda pherthnasoedd cryf ar draws y corff gweithredol gwleidyddol a swyddogion a'r strwythurau ehangach a bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol yng ngoleuni'r pwysau ariannol, strategol a gweithredol sylweddol y mae'r Cyngor yn ymdrin â hwy yn ddyddiol.
- Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol ar waith ond mae cyfle i gryfhau'r berthynas rhwng aelodau gweithredol y Cyngor a'r fainc gefn ymhellach yn y prosesau a'r blaenoriaethau y bydd angen i'r Cyngor eu cymryd wrth symud ymlaen.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu a datblygu meysydd arloesi gan gynnwys Canolfannau Lles, TGCh a gweithio hybrid.
- Nodwyd cyfleoedd i wella, a fydd yn gwella'r trefniadau sydd ar waith, i gefnogi cyfathrebu effeithiol, rheoli perthnasoedd a pherchnogaeth ar y cyd o heriau presennol ac yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ac yn derbyn y meysydd i'w gwella a nodwyd gan y Panel Asesu Perfformiad ac yn derbyn eu hargymhellion. Rhestrir yr argymhellion ac ymateb manwl a gweithredoedd cytunedig y Cyngor yn y tabl sy'n dilyn y llofnodion isod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Bryan Davies** | **Arweinydd** | **Dyddiad :** | **09/05/2025** |
| **Eifion Evans** | **Prif Weithredwr** | **Dyddiad :** | **09/05/2025** |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1. | **Bydd angen i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o ymgynghori ar doriadau posibl yn y gyllideb o ystyried yr amserlen gul ar gyfer ymgynghori oherwydd y terfynau amser statudol ar gyfer pennu'r gyllideb.** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb flynyddol ac wedi cynnal ymgynghoriadau penodol ar bob elfen o'r arbedion a gynigir, fel y'i rhestrir o fewn y gyllideb derfynol. Mae hyn wedi golygu bod pob cynnig arbedion yn destun i ymgynghoriad helaeth ac yn cael ei wneud drwy'r broses ddemocrataidd ar gyfer penderfyniad terfynol ar wahân. Mae'r broses hon wedi bod yn drylwyr ac wedi bod yn destun ymgynghori a chraffu. Mae hyn wedi arwain at gymeradwyo'r rhan fwyaf o gynigion y gyllideb, ond mae rhaid wedi'u tynnu'n ôl, neu mae newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig cyn ei gymeradwyo'n derfynol.<br><br>Er bod y mwyafrif wedi cytuno ar ostyngiadau mewn gwariant yn ystod 2024-25, roedd gwrthwynebiad gan y cyhoedd yn ystod ymgynghoriadau'n golygu na chafodd cyfran fach o'r cynigion eu gwireddu.<br><br>O ystyried yr wrthwynebiad cyson gan y cyhoedd i ymgynghoriadau ar doriadau i wasanaethau yn<br>2024/25, ni chynigiwyd unrhyw doriadau newydd i wasanaeth ar gyfer 2025/26, gyda'r Cabinet a'r Cyngor yn penderfynu a byddai'r diffyg mewn cyllid yn cael ei dalu gan gynnydd yn nhreth y Cyngor.<br><br>**<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>**<br><br>• Ystyried cynnal ymgynghoriad corfforaethol cyffredinol cyn cymeradwyo cyllideb 2026/27. | 31/03/2026 |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 2. | **Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gallu darparu cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol, a bydd angen ystyried pa mor gynaliadwy y mae hyn yn symud ymlaen o ystyried y pwysau ariannol.** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil y galwadau cynyddol ar ofal cymdeithasol ac mae wedi gallu addasu a darparu ar gyfer gwariant ychwanegol ar y dinasyddion mwyaf agored i niwed yng Ngheredigion. Mae'r gwariant yn cael ei fonitro'n agos ac mae tystiolaeth gynyddol bod y gyfradd ehangu yn arafu, oherwydd gwell monitro o'r cyllidebau a rheoli'r galw. Serch hynny, mae'n amhosibl rhagweld yn gywir faint o gleientiaid a fydd yn bresennol mewn unrhyw flwyddyn, nac ehangder eu cymhlethdod. Y ffocws strategol yr atal mynediad i ofal statudol hirdymor a chynyddu costau (camu lawr, atal ac atebion cymunedol). Yn ogystal, mae cynlluniau cenedlaethol fel Plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches angen ymatebion hyblyg.<br><br>Er gwaethaf heriau difrifol a pharhaus, mae'n werth nodi, ers yr asesiad, bod y Cyngor wedi trosglwyddo preswylwyr yn ofalus o gartref preswyl hen ffasiwn i gyfleuster modern i resymoli gofal a gwella'r profiad gofal i breswylwyr. Ynghyd â disodli meddalwedd hen ffasiwn yn ddiweddar, mae'r mentrau hyn yn dangos bod y model Gydol Oes yng Ngheredigion yn gwella gwasanaethau wrth reoli gwariant.<br><br>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno swyddi Dadansoddwyr Busnes i'r strwythur staffio Gydol Oes a Llesiant (TAW) i fonitro effeithlonrwydd model darparu gwasanaethau TAW yn agos, gan sicrhau fwyfwy bod buddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar yn wir yn arafu nifer a chyfradd y bobl sy'n cynyddu tuag at becynnau gofal costus.<br><br>**<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>**<br><br>• Sefydlu cartrefi â staff o'r sir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | 31/03/2027 |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | • Lleihau dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth lle mae'n ddiogel gwneud hynny. | |
| 3. | **Dylai'r Cyngor ystyried y cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth pellach.** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Fel y cydnabuwyd yn Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel, mae gan y Cyngor berthynas waith da gydag Awdurdodau Lleol cyfagos. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth a chydweithio effeithiol gyda Sefydliadau Cyhoeddus, Trydydd Sector a Sectorau Preifat eraill ar draws y Sir a'r Rhanbarth. Mae'r Cyngor yn gweithio o fewn tirwedd ranbarthol gymhleth gan fod y rhan fwyaf o bartneriaethau a chydweithrediadau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn seiliedig ar ôl troed Hywel Dda; Mae Datblygiad Economaidd, Cynllunio, Addysg a Thrafnidiaeth yn seiliedig ar ardal Canolbarth Cymru; tra bod gwaith Partneriaeth Cydnerth Lleol a Diogelwch Cymunedol wedi'i seilio ar yr un o ranbarthau Dyfed-Powys. Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu'r holl brosiectau cydweithio yn rheolaidd.<br><br>**<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>**<br><br>• Archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau gyda'r holl bartneriaid, gan gynnwys mynd ar drywydd cyfleoedd pellach ar gyfer darparu gwasanaethau a swyddogaethau a chyfleusterau a rennir gyda phartneriaid. | Parhaus |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 4. | **Mae angen brys i'r Cyngor ailystyried a yw eu strategaeth bresennol ar gyfer recriwtio gwaith cymdeithasol yn effeithiol ac archwilio dewisiadau eraill.** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Mae gan y Cyngor strategaeth gadarn i ddatblygu gweithwyr cymdeithasol eu hunain, sydd wedi bod ar waith ers 2023. Rhagwelir y bydd y rhaglen hon yn diwallu anghenion cynllunio yn y tymor canolig a'r hirdymor. Nodwch fod tri gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant wedi graddio yn 2023 ac eto yn 2024. Mae disgwyl i chwech arall raddio eleni, ac yna chwech arall y flwyddyn nesaf a thri yn 2027.<br><br>Mae swydd wag a phroses monitro recriwtio wedi'i rhoi ar waith sy'n adrodd i uwch reolwyr bob mis. Mae'r broses hon yn canolbwyntio ar leihau dibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth trwy apwyntiadau parhaol.<br><br>Mae'r Cyngor eisoes wedi treialu recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys o dramor ond yn dilyn gwerthusiad ni fydd yn parhau gyda'r opsiwn hwn.<br><br>Mae trafodaethau'n parhau gyda Phrifysgol Aberystwyth ar gyflwyno Gradd Meistr yn y Gwyddorau mewn Gwaith Cymdeithasol. Byddai hyn yn fuddiol pe bai'n cael ei weithredu ond nid yw'n rhan o strategaeth gyfredol y Cyngor.<br><br>**<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>**<br><br>• Darparu a buddsoddi yn y strategaeth i ddatblygu gweithwyr cymdeithasol eu hunain, gyda'r nod y gellir ennill 21 o unigolion yn cymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol dros y 4 blynedd nesaf. | Parhaus |
| 5. | **Dylai'r Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â thema gyson o gyfathrebu aneffeithiol ar draws yr awdurdod yn enwedig gyda** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Rydym yn cydnabod yr heriau hyn o ystyried y wasg leol negyddol sylweddol ac rydym wedi bod yn gweithio i wella cyfathrebu allanol. Mae e-gylchlythyr corfforaethol ac e-gylchlythyr ymgysylltu wedi'u dosbarthu i ddinasyddion sydd | 31/03/2026 |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | **phartneriaid a phreswylwyr ac effeithiolrwydd "Clic".** | wedi cofrestru i'w derbyn. Mae'r nifer sydd wedi cofrestru i dderbyn yr e-gylchlythyr Corfforaethol a'r e-gylchlythyr ymgysylltu yn cynyddu bob chwarter.<br><br>Mae rhai o'r themâu rheolaidd a nodwyd gan yr asesiad ynghylch ein meddalwedd 'CLIC' yn ymwneud  a materion hanesyddol, llawer ohonynt wedi'u datrys yn ddiweddar neu'n brosiectau gweithredol. Fodd bynnag, mae hwn yn faes gwaith mawr y bydd y Cyngor yn parhau i'w ddatblygu.  Mae Clic bellach yn anfon e-bost cau i bob categori cwsmer, sydd hefyd yn cynnwys dolen unigryw i arolwg adborth. Mae'r integreiddio rhwng rhai systemau meddalwedd a Clic wedi gwella'n sylweddol. Mae neges destun ac offer sy'n anfon swmp sylweddol o e-byst yn cael eu hintegreiddio i Clic i ganiatáu diweddariadau i nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r platfform 'Fy Nghyfrif' hefyd wedi'i ryddhau, ac mae pobl yn cael eu hannog i fabwysiadu'r dull hwn a fydd yn eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, gweld diweddariadau a statws eu hymholiadau.<br><br>**<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>**<br><br>• Ymgymryd â dadansoddiad rheolaidd o ryngweithio postiadau cyfryngau cymdeithasol, fideos ac e-gylchlythyrau corfforaethol a defnyddio'r wybodaeth i lywio strategaethau'r dyfodol.<br>• Datblygu Strategaeth Gyfathrebu sy'n amlygu'r arddull a'r parodrwydd i ymgysylltu. | |
| 6. | **Mae yna ychydig o ddatgysylltiad rhwng aelodau'r fainc gefn a'r timau gweithredol / uwch arweiniol y mae angen mynd i'r afael â nhw.** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Rydym yn cydnabod yn llawn rôl aelodau meinciau cefn a grwpiau gwrthbleidiau wrth ddwyn y timau gweithredol ac uwch arweinwyr i gyfrif a'u rôl bwysig yn y gwahanol Bwyllgorau Craffu. | Parhaus |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn parhau i weithio gydag aelodau etholedig o bob rhan o'r siambr er budd trigolion Ceredigion. Gan gydnabod y bydd gan aelodau farn wahanol a bod ganddynt farn gref ar amrywiaeth o faterion, byddwn yn parhau i annog trafodaeth barchus ond byddwn yn defnyddio swyddogaeth y Swyddog Monitro yn llawn i ymyrryd pan fo hynny'n briodol a sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymddygiad y Cyngor.<br><br>**<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>**<br><br>• Bydd yr Arweinydd yn parhau i alw cyfarfodydd anffurfiol gydag arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y materion a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor sydd ar ddod, er mwyn ennyn ysbryd o gydweithredu a chyd-ddealltwriaeth. | |
| **7.** | **Mae angen datblygu'r berthynas rhwng y swyddogaeth graffu a'r corff gweithredol ymhellach.** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Cydnabyddir bod nifer o'r Aelodau – Aelodau Cabinet ac Aelodau Craffu, newydd eu hethol ym mis Mai 2022 ac efallai y bydd angen hyfforddiant pellach i'w hatgoffa o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn strwythur llywodraethu'r Cyngor.<br><br>Mae'r Cabinet wedi cefnogi nifer o argymhellion a wnaed gan bwyllgorau craffu. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd gwelliant wedi bod yn y ffordd/modd y caiff argymhellion a wneir gan bwyllgorau Craffu ac a gefnogir gan y Cabinet eu cofnodi, yng nghofnod y penderfyniadau ac yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae Blaenraglenni gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn amlinellu'r rheswm pam y cafodd mater ei ychwanegu i'w ystyried yn y dyfodol gan y Pwyllgorau priodol h.y. Risg Gorfforaethol, Strategaeth Gorfforaethol, cyllideb, monitro, perfformiad ac ati. | 31/05/2026 |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | **<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>**<br><br>• Darparu hyfforddiant pellach i aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac i Aelodau'r Cabinet ynghylch rôl craffu a dwyn Aelodau'r Cabinet i gyfrif. Bydd yr hyfforddiant yn darparu gwybodaeth am sut i nodi a blaenoriaethu pynciau y dylid eu craffu. | |
| 8. | **Mae'r system rheoli perfformiad yn gynhwysfawr ond mae angen canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.** | **<u>Ymateb</u>**<br><br>Mae Tîm Perfformiad y Cyngor yn parhau i gefnogi Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a Rheolwyr Corfforaethol wrth osod a datblygu eu mesurau perfformiad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu ymgyrch i gynnwys mwy o fesurau ar sail canlyniadau mewn Cynlluniau Busnes Gwasanaeth. Gwnaed sawl gwelliant i'r gyfres o fesurau yn ystod blwyddyn 2024/25 i'w cryfhau o ran cadernid cyffredinol ac yn benodol wrth fesur canlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Ar ben hynny, wrth baratoi ar gyfer y rownd nesaf o Gynllunio Busnes a lansiwyd ym mis Chwefror 2026, roedd cyflwyniad y Cynllun Busnes i Reolwyr a'r canllawiau ategol yn darparu gwybodaeth ychwanegol am osod mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau.<br><br>Mae'r holl fesurau perfformiad sydd wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Busnes Gwasanaeth yn gysylltiedig ag un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol sy'n cefnogi'r broses o fonitro cynnydd yn erbyn yr Amcanion.<br><br>Ar ben hynny, cyflwynir yr holl gynlluniau busnes gwasanaeth i'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol i'w cymeradwyo'n derfynol, sy'n cynnwys craffu ar fesurau ac a ydynt yn seiliedig ar ganlyniadau digonol.<br><br>**<u>Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad, byddwn yn:</u>** | 31/05/2026 |

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Ceredigion | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | • Ail-gydbwyso'r mesurau perfformiad cyfanredol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbwn o fewn Cynlluniau Busnes Lefel 1 ar draws y Cyngor. | |

Bydd adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2025 i adolygu'r cynnydd ac i roi sicrwydd bod yr argymhellion yn cael sylw.